# Gweminar Symposiwm Cyflogaeth Am Ddim

**4ydd Rhagfyr 2020**
**09:30-12:30**

## RHAN TRI

Ystafelloedd Trafod / Gweithdai

Sut i Wneud y Mwyaf o’r Cynnig yng Nghymru, cyfle i drafod a rhannu gwybodaeth

| | PWNC | ARWEINYDD / HWYLUSYDD | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|
| **A.** | **Awtistiaeth a Chyflogaeth: Cefnogi cyflogwyr mewn lleoliadau prif ffrwd**<br><br>*Cyfres o astudiaethau achos, rhannu arfer da a ffocws ar lesiant ar gyfer cyflogeion awtistig.* | **Keith Ingram**, Swyddog Arweiniol Awtistiaeth Caerdydd a’r Fro a Chadeirydd Fforwm y Swyddogion Arweiniol Awtistiaeth Lleol<br><br>**Wendy Thomas**, Arweinydd Proffesiynol Awtistiaeth Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Bwriad y sesiwn yw cyflwyno'r adnoddau cyflogaeth sydd ar wefan AwtistiaethCymru.org.<br><br>Mae gwefan Awtistiaeth Cymru’n adnodd dwyieithog, gydag ystod eang o nodweddion i wella ei hygyrchedd. Mae hyn yn cynnwys gallu newid maint y testun a’r lliwiau. Datblygwyd y wefan gyda mewnbwn gan oedolion awtistig gyda'r nod o allu llywio'r dudalen mor syml â phosib.<br><br>Dechreuodd datblygiad yr adnodd cyflogaeth ar y wefan genedlaethol fel cefnogaeth ar gyfer cyrsiau cyflogaeth a oedd wedi cael eu cynnal er budd oedolion awtistig. Tra bo'r oedolion dan sylw wedi magu rhagor o wybodaeth a hyder, rhan yn unig o’r darlun oedd honno. Y cam nesaf oedd creu adnoddau a fyddai’n gymorth i’r siwrnai i gyflogaeth, drwy asiantaethau megis Gyrfa Cymru a Chanolfannau Gwaith, ac ymlaen i’r gweithle. |

| | PWNC | ARWEINYDD / HWYLUSYDD | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y sesiwn hon yn trafod rhai o'r adnoddau yn unig. Yn bennaf, ffilm fer, 'Beth yw awtistiaeth', ardystiad awtistiaeth, cyfweliadau, cyngor i reolwyr a ffilm fer ar brentis, astudiaethau achos ac adnoddau TUC Cymru. |
| **B.** | **Pobl ag Anableddau Dysgu a Chyflogaeth: Cefnogi cyflogwyr mewn lleoliadau prif ffrwd**<br><br>*Cyfres o astudiaethau achos, rhannu arfer da a ffocws ar lesiant ar gyfer cyflogeion ag anableddau dysgu.* | **Sian Clarke**, Rheolwr Gweithrediadau, ELITE<br><br>**Chris English,** Rheolwr Hyfforddi, ELITE<br><br>**Robyn Williams**, Rheolwr Hyfforddi, Agoriad Cyf | Bydd Cyflogaeth a Gefnogir ELITE, Atebion Hyfforddiant ELITE ac Agoriad Cyf yn cynnal sesiwn drafod i ystyried sut y gallant gefnogi cyflogwyr mewn lleoliadau prif ffrwd i gyflogi unigolion a phobl ifanc ag anableddau dysgu drwy'r Prosiect Ymgysylltu i Newid.<br><br>Bydd y sesiwn yn cynnwys ffilmiau o bobl ifanc yn eu gwaith, eu hanesion llwyddiant am sut mae cyflogaeth wedi newid eu bywydau drwy eu gwneud yn fwy annibynnol a'u helpu i fagu hyder. Bydd dwy sesiwn cwestiwn ac ateb, lle byddwn yn ystyried sut mae sefydliadau Cyflogaeth a Gefnogir yn gweithio ar y cyd â chyflogwyr, i gynnig gwasanaeth dechrau i ddiwedd i alluogi unigolion ag anableddau dysgu i gael mynediad at waith a chyflogaeth. Byddwn yn trafod sut y byddwn yn cefnogi'r cyflogwr ar hyd y ffordd i sicrhau fod eu hamodau recriwtio a'r gweithle yn hygyrch ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu. Byddwn yn rhannu gwybodaeth ynghylch pam fod cyflogaeth a gefnogir yn ddull llwyddiannus, y dulliau hyfforddiant arbenigol yr ydym yn eu defnyddio a sut y gallwn helpu cyflogwyr i fod yn Hyderus o ran Anabledd drwy ddefnyddio arferion recriwtio hygyrch a chyflogi gweithlu amrywiol. |
| **C.** | **Ymateb Llywodraeth Cymru i gyflogwyr mewn perthynas â Covid-19 a sgiliau**<br><br>**Diweddariad cyffredinol – beth yw hyn?**<br><br>*Cyfeirio at gymorth lefel uchel, cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod.* | **Edwyn Williams**, Pennaeth Ymgysylltu, Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru | Dyma gyfle i glywed am gynnig Sgiliau Llywodraeth Cymru a'r Ymrwymiad Covid-19 i gynnig cyngor a chymorth i bobl 16+ i ddod o hyd i waith, i chwilio am gyfleoedd i fod yn hunan-gyflogedig neu i ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant, gyda chymhelliannau cyflogi i gyflogwyr recriwtio unigolion sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan Covid-19.<br><br>Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fuddsoddiad £40 miliwn mewn swyddi, a bydd sgiliau'n hanfodol i helpu i leihau effaith y pandemig a bydd yn allweddol i roi hwb i'n hadferiad economaidd. Bydd Ymrwymiad Covid-19 Llywodraeth Cymru yn ganolog i'n hadferiad economaidd a'n |

| | PWNC | ARWEINYDD / HWYLUSYDD | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|
| | | | huchelgeisiau i Ailgodi'n Gryfach, ac yn hanfodol i gefnogi'r rhai hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol ym marchnad lafur Cymru. |
| **D.** | **"Beth sy'n Gweithio yn y Gwaith?"**<br><br>*Cefnogi cyflogeion awtistig – astudiaethau arfer gorau o'r gweithle* | **Catherine Leggett**, Rheolwr Ymgysylltu â Chyflogwyr, y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth | Dangosodd astudiaeth ddiweddar o ymgysylltu â chyflogwyr, a gynhaliwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, nad yw 66% o gyflogwyr yn gwybod ble i droi am gyngor ar agweddau sy'n ymwneud ag awtistiaeth yn y gweithle. Yn ogystal, dim ond 32% o bobl awtistig sydd mewn rhyw fath o gyflogaeth â thâl, er bod dros 70% am weithio.<br><br>Mae'r sesiwn hon yn sgwrs ryngweithiol, a gynlluniwyd i gynyddu dealltwriaeth a derbyniad cyffredinol ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a chyfleoedd penodol, y mae'r cyflwr yn eu cyflwyno yn y gweithle. Bydd trafodaeth ynghylch enghreifftiau o arfer gorau cyflogwyr, gan ddefnyddio astudiaethau achos a hefyd trosolwg o'r cysyniad a phrosesu addasiadau rhesymol. Mae'r sesiwn yn gyfle i gyfranogwyr archwilio strategaethau y gallant eu gweithredu eu hunain yn ystod gweithgaredd astudiaeth achos terfynol a darganfod adnoddau ar gyfer cymorth a dysgu pellach.<br><br>Ymunodd Catherine Leggett â'r NAS ym mis Ebrill 2014 ac mae'n gweithio gyda chyflogwyr a'u gweithwyr, i oresgyn materion sy'n ymwneud ag awtistiaeth, ac i wneud y gorau o gryfderau pobl awtistig yn y gweithle. Mae Catherine yn darparu cynllun ac ymgynghoriaeth rhaglenni ar nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar gyfer Tîm Menter a Chyflogaeth Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, gan gynyddu'r broses o recriwtio, cadw a hyrwyddo pobl awtistig ledled y DU. |
| **E.** | **Cyflogaeth â Chymorth yng Nghymru: Materion sy'n dod i'r amlwg mewn adeg heriol i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth a chyflogwyr** | **Dr Elisa Vigna** & **Andrea Meek**, NCMH, Prifysgol Caerdydd | Yn ystod y sesiwn hwn byddwn yn adolygu'r pryderon cyffredin mae cyflogwyr yn eu wynebu wrth benderfynu cyflogi unigolyn sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Bydd yn crynhoi beth yw hyfforddiant swyddi a chyflogaeth gyda chefnogaeth, a beth maent yn eu cynnig i gyflogwyr i fodloni eu pryderon a'u hanghenion. Byddwn yn darparu data o'r prosiect 'Engage to Change' yng Nghymru ar ymateb ein cyflogwyr i gyflogi unigolion sydd ag anableddau dysgu neu awtistiaeth. Byddwn yn ystyried yr heriau newydd rydyn ni a'r cyflogwyr yn eu wynebu yn ystod pandemig y |

| | PWNC | ARWEINYDD / HWYLUSYDD | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|
| | | | coronafeirws a sut mae 'Engage to Change' wedi gallu helpu. Byddwn yn dadlau fod cyflogi pobl sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth, gyda chymorth, yn dal i fod yn benderfyniad positif i gyflogwyr, hyd yn oed yn ystod y cyfnod anodd hwn. Bydd Cyfranogwyr yn cael cyfle i drafod eu profiadau o ran cyflogi gweithlu amrywiol, unrhyw broblemau sydd ganddynt, ac unrhyw help sydd ei angen arnynt o ran cyflogi pobl gydag anableddau dysgu neu awtistiaeth. |
| ***Thema gyson ym mhob sesiwn***: *cydnabyddiaeth bod Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar bob agwedd ar fusnes, gan gynnwys cyflogaeth. Cyfeiriad hefyd at yr effaith ar iechyd meddwl, gorbryder a llesiant yn y gweithle.* | | | |